

# GOLYGWEDD Y BEIBL YNGLŶN Â GWEITHREDU ARFERION DEWINOL

## *Nodyn i'r siaradwr:*

Argraffwch olygwedd Ysgrythurol y pwnc hwn ar y gynulleidfa, a'u cael i gydnabod mai gwirionedd y Beibl sy'n denu'r rhai gonest o galon at Jehofah. Os gwelwch yn dda peidiwch â manylu ynglŷn ag arferion dewinol arbennig. Hefyd, defnyddiwch yn unig brofiadau sydd wedi'u cyhoeddi yng nghyhoeddiadau'r Gymdeithas

## **ARFER DEWINIAETH YN EANG (3 mun.)**

Mae a wnelo dewiniaeth â chysylltu ag ysbrydoedd anweledig

Mae i arfer dewiniaeth lawer ffurf

Mae'n cynnwys darogan, seryddiaeth, hypnotiaeth, dewindabaeth, fwdwaeth, byrddau Ouija, llawddewiniaeth, dweud ffortiwn, seansau a dulliau eraill honedig o gysylltu â'r meirw (*sp* 21; *sh* 91; *pe* 95-6)

Cred llawer fod ysbryd ran bodau dynol yn goroesi marwolaeth ac yn medru cyfathrebu â'r byw (*sp* 2-3; *rs* 384)

Mae diddordeb cynyddol byd-eang mewn dewiniaeth

Dywed y llyfr *Occult Shock and Psychic Forces*: "Ymddengys bod amrywiaeth eang o sylwebyddion yn teimlo ein bod mewn cyfnod o adfywiad digyffelyb mewn diddordeb yn yr oewlt" (*w87* 9/1 3)

Mae gwleidyddion, arweinyddion crefyddol, a phobl amlwg eraill yn aml yn ymhel â dewiniaeth

Fe'i caniateir a'i weithredu gan lawer yng Ngwledydd Cred (*w87* 9/1 3-4)

Beth yw tarddiad dewiniaeth? Ai peth da neu niweidiol ydyw? Beth yw golygwedd y Beibl ynglŷn â gweithredu arferion dewinol?

## **BETH YW'R FFEITHIAU YNGLŶN Â CHYFATHREBU Â'R YSBRYD FYD (12 mun.)**

Dengys y Beibl nad yw cyfathrebu â byd yr anweledig ddim yn newydd

Bu i'r dyn a'r ddynes cyntaf gyfathrebu â'u Creawdwr (Gen 3:8-13)

Nid â bodau dynol marw y huont yn siarad ond â Duw oedd wedi cynnig gobaith sicr bywyd tragwyddol ym Mharadwys (Gen 2:15-17)

Rhodddwyd cyfarwyddiadau i Noa ynglŷn â'r Dilyw (Gen 6:13-22)

Derbyniodd Abraham gyfathrebu a arweiniodd i fendithion (Gen 12:1-4)

Fodd bynnag, ni fu pob cyswllt â'r ysbryd fyd yn llesol

Defnyddiodd ysbryd drwg, sarff i gamarwain Adda ac Efa (Gen 3:1-5)

Camarweiniodd angylion gwrthryfelgar yn amser Noa fodau dynol gan annog trais ac anfoesoldeb rhywiol (Gen 6:1, 2, 11; Judas 6)

Yn amser Iesu, 'roedd dyn oedd dan ddylanwad ysbryd aflan yn druenus ac yn gwneud niwed iddo'i hun (Mc 5: 2, 5)

Mae llawer sy'n ymwneud â'r ysbryd fyd heddiw yn dioddef canlyniadau erchyll

Mae artaith corfforol a meddyliol yn gyffredin; 'dyw anfoesoldeb rhywiol a hyd yn oed llofruddio ddim yn anghyffredin ymysg y rhai sy'n gweithredu arferion dewinol (*sp* 12, 22)

Nid oddi wrth Dduw mae'r gweithredu arferion dewinol sydd yn y byd o'n cwmpas

Dengys y Beibl mai Satan a'r cythreuliaid yw hyrwyddwyr anweledig dewiniaeth

Satan yw "hen sarff" dwyllodrus Eden (Dat 12:9)

Datguddia Actau 16:16-19 "ysbryd dewiniaeth," sy'n dangos cefnogaeth cythreulig i "ragfynegi pethau"

Eu bwriad bob amser yw troi pobl oddi wrth Jehofah (Deut 13:1-5)

Dywedodd Satan gelwydd am beidio â marw; pan fu Adda ac Efa farw, fe hyrwyddodd e'r anwiredd fod gan ddyn enaid anfarwol

Gellir olrhain cysyniad yr enaid anfarwol a chyfathrebu â'r meirw yn ôl i Fabilon hen (*sh* 41, 52-3)

Addurnwyd anwiredd Satan i lawr drwy'r canrifoedd

Y canlyniad yw fod llawer, yn hytrach na cheisio'r Creawdwr, yn ceisio cyfathrebu â'r meirw ac yn ymarfer â swynion dewinol (*sh* 77-8)

## **Y BEIBL YN CONDEMNIO POB FFURF AR DDEWINIAETH (6 mun.)**

Ysbrydolwyd ysgrifennwyr y Beibl, o'r cyntaf i'r olaf, gan Dduw i gondemnio'n gadarn weithredu arferion dewinol (Deut 18:10-12; Dat 21:8)

Dywed Paul yn eglur na chaiff y rhai sy'n ymarfer â dewiniaeth ddim etifeddu Teyrnas Dduw (Gal 5:19-21)

Pam mae'r Beibl mor gadarn ynglŷn â'r mater hwn?

Oherwydd y daw y rhai sy'n ymwneud â dewiniaeth dan ddylanwad y cythreuliaid, sef gelynyon Duw

Mae dewiniaeth yn hyrwyddo'r anwiredd nad yw bodau dynol yn marw o gwbl ond fod ysbryd ran ganddynt sy'n byw ymlaen

Mae Jehofah, Duw'r gwirionedd, yn gwrthwynebu anwiredd (Salmau 31:5; Diar 6:16-19)

Dywedodd Jehofah'r gwirionedd fod y meirw yn anymwybodol ac na fedrant gyfathrebu â'r byw (Preg 9:5, 10)

Mae unrhyw gyfathrebu honedig â'r meirw naill ai'n dwyll neu mae'n golygu cyfathrebu ag ysbrydoedd drwg

Rhaid bod yn ofalus rhag cael ein camarwain; mae Satan yn gyfrwys ac yn glyfar (2Cor 11:14)

### **SUT I GADW'N RHYDD RHAG DYLANWAD NIWEIDIOL DEWINIAETH** (20 mun.)

I gadw'n rhydd, ymddarostyngwch i'r gwir Dduw, Jehofah (Iago 4:7a)

Dysgwch wneud ei ewyllys a'i chadw'n flaenllaw

Gwrthodwch yn llwyr â chael rhan yn unrhyw weithredu arferion a thraddodiadau dewinol

Gwisgwch amdanoch holl arfogaeth Duw (Eff 6:11-13)

Gweddiwch ar Jehofah; gwaeddwch ei enw os yw'r cythreuliaid yn ymosod arnoch (Diar 18:10)

Nid swyndlws hudol yw enw Duw

Cawn ein hamddiffyn wrth dorri'n llwyr oddi wrth ddewiniaeth a rhoi ymddiriedaeth lwyr yn Jehofah, ac yna cael ein hadnabod ganddo (1Pedr 3:12)

Ceir tystiolaeth am ei gymorth yn y niferau cynyddol o Dystion sydd wedi torri'n rhydd oddi wrth ddewiniaeth (Gweler *Index* 1986-90, o dan "*Spiritism*," is-bennawd "*experiences*")

Mae Jehofah yn fwy nerthol na Satan

O wasanaethu Jehofah fe fydd yn eich amddiffyn rhag y cythreuliaid (*sp* 24)

Rhaid hefyd gwrthsefyll y Diafol (Iago 4:7b)

Torrwch bob cysylltiad ag unrhyw un y gwyddoch ei fod yn ymwneud ag arferion dewiniaeth (1Cor 10:21)

Peidiwch â dod â gwrthrychau ganddynt i mewn i'ch cartref (Deut 7:25)

Dilynwch esiampl yr Effesiaid a losgodd eu llyfrau am hudoliaeth (Act 19:19, 20)

Mynnwch gael gwared ar bob amwled, swyndlws, llinynnau "amddiffyn," swynoglau, llyfrau ar hudoliaeth, ac unrhyw beth arall a gysylltir â dewiniaeth

Peidiwch byth â darllen deunydd sy'n hyrwyddo dewiniaeth, megis horosgopau, dim ond oherwydd chwilfrydedd i weld beth a ddywedant (Jer 10:2)

Peidiwch â gwyllo'r teledu neu ffilmiau sy'n ymwneud â hypnotiaeth, seansau, a ffurfiau eraill ar ddewiniaeth

Peidiwch â chaniatau i chwilfrydedd eich arwain ar gyfeiliorn

Ymwrthodwch â gwneud yn ôl arfer rhai sy'n chwilio am arwyddion neu ragargoelion (Deut 18:10; Esea 8:19)

Peidiwch â disgwyl derbyn cyfathrebu uniongyrchol, personol oddi wrth Dduw fel y gwnaeth Adda, Noa, neu Abraham

Nid yw Duw yn cysylltu mwyach â bodau dynol drwy gyfrwng breuddwydion, gweledigaethau, neu leisiau o'r ysbryd fyd

Datguddiodd Jehofah ei ewyllys drwy Iesu, ac mae gennym gofnod ysgrifenedig ohono yn y Beibl (Heb 1:1, 2)

Mae'r Beibl cyflawn gennym 'nawr, a thrwy'r cyfrwng hwn y mae Duw yn ein harwain a'n cyfarwyddo, gan sicrhau "cyflawn ddarpariaeth ar gyfer pob math o weithredoedd da" inni (2Tim 3:17)

Osgowch ymdrechion rhyfygus i gyfathrebu â'r ysbryd fyd; dibynnwch ar Air a chyfundrefn Duw (Mth 24:45-47)

Os yw cythreuliaid yn eich profi er gwaethaf eich ymdrechion i ymryddhau rhagddynt, fel y profasant Iesu, 'dyw hyn ddim o angenrheidrwydd yn golygu anghymeradwyaeth Duw

Rhaid dyfalbarhau a pheidio ag ildio

Ni fydd y cythreuliaid yn fuddugol os gwrthwynebwn ni nhw a glynu wrth Jehofah (Mth 4:10, 11)

### **GWASANAETHWCH JEHOFAH A MEDI GWOBRWYON CYFOETHOG** (4 mun.)

Oherwydd effeithiau drwg gweithredu arferion dewinol gallwn 'nabod mai Satan a'r cythreuliaid yw'r pwerau anweledig y tu ôl i ddewiniaeth

Maen' nhw'n mwynhau brifo a thwylo'r ddynoliaeth

Jehofah yw'r un sy'n ein gwir garu

Mae E wedi darparu bendith ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys diwedd ar reolaeth Satan (Gen 3:15; *sp* 22-3)

Anfonodd Iesu i'r Ddaear i achub y ddynoliaeth (In 3:16)

Iachaodd Iesu bobl, bwriodd allan gythreuliaid, ac atgyfodi'r meirw, gan ddarparu sail inni gredu ym mendithion byd newydd (2Pedr 3:13; Dat 21:4)

'Dyw Jehofah byth yn camarwain pobl (Num 23:19)

Ffynhonnell daioni yn unig ydyw (Iago 1:17)

Felly ymwrthodwch ag arferion sy'n ymwneud â dewiniaeth

Gwasanaethwch Jehofah drwy gymhwyso gwirionedd y Beibl

Rhoddwch hyder yn ysbryd Duw a grym y gwirionedd i'ch diogelu a'ch amddiffyn chi rhag dewiniaeth (In 8:32)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)